CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS a LLANELIAN YN RHOS
COMMUNITY COUNCIL

ADRODDIAD BLYNYDDOL 1/4/2024 – 31/3/2025

Gweler isod Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos 2024 i 2025

RHIFAU AR GOFRESTR ARDAL Y CYNGOR

Betws yn Rhos - 553 Llanelian yn Rhos = 318
Cyfanswm = 861

AELODAU Y CYNGOR

Cadeirydd: **John Evans** Clwb Chwaraeon Betws yn Rhos

Is-Gadeirydd: **Glena Humphrey** Bwrdd Llywodraethu Ysgol Betws yn Rhos

Cynghorwyr :
Irwedd Griffiths Bwrdd Llywodraethu Ysgol y Plas
Bryn Jones Mynwent Betws yn Rhos
D Gwyn Jones Canolfan Gymunedol Llanelian
Gethin Owen Neuadd y Pentref Betws yn Rho
Goronwy Rees Williams
Hefin Williams Awdurdod Addysg Lleol
Gwenda Davies

Cynghorydd Sir Conwy : **Ifor Glyn Lloyd**

Clerc: Mel Jones

ETHOLIAD

Roedd dim Etholiad yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd hysbysiad allan i gael Cynghorydd newydd yn lle Mr John Roberts ac yn anffodus fu farw yn ystod y flwyddyn.

CYFARFODYDD

Cynhalwyd deg cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Does dim cyfarfodydd yn mis Awst nag mis Rhagfyr.

Gan fod Canolfan Gymunedol Llanelian yn Rhos yn cael ei ail adeiladu roedd y mwyafrif o'r cyfarfodydd yn cael ei cynnal yn Canolfan Chwaraeon, Betws yn Rhos.

Mae y Canolfan wedi cael ei agored erbyn hyn ac mae dau cyfarfod wedi ei gynnal yn y neuadd.
Yn symud ymlaen fydd y cyfarfodydd yn cael ei rhannu yn gyfartal.

PRESENOLDEB

Yn ystod y flwyddyn cafwyd 84% o bresenoldeb gan y Cynghorwyr yn y cyfarfodydd a fe fydd i'r Cynghorydd Sir fynychu 9 o'r cyfarfodydd.

CYLLID

Rhoddwyd cais a derbynwyd Praesept o £13,000 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y flwyddyn

Cafwyd gwariant fel a ganlyn:

Tal y Clerc a HMRC = £9,563.82
Grantiau i grwpiau lleol = £6,218.07
Taliadau costau amrywiol a Wefan ac y We = £1,768.07

VAT = £598.82
Archwiliadau Blynyddol = £316.80
Rhent am safleoedd cyfarfodydd = £235.00
Gwasanaethau cyflogaeth = £234.00
Costau Banc = £61.20

Cyfanswm = £18,996.58

Mae rhan fwyaf o anfonebau yn cael ei talu ar lein.

ARCHWILIADAU BLYNYDDOL

Roedd un neu ddau o sylwadau a chrybwylliadau bychan yn dilyn yr Archwiliad Mewnol Blynyddol a gafwyd ei unioni cyn ei gyrru i Archwiliad Cymru. Mae dogfennau yr Archwiliad Mewnol ar y wefan.
Dal i ddisgwyl adroddiad Archwiliad Cymru. Unwaith fydd y gwaith yn cael ei gwbwlhau fydd y dogfennau yn cael ei postio ar y wefan.

CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafodwyd 27 o geisiadau cynllunio dros y flwyddyn. Roddwyd barn y Cyngor mewn adroddiad am bob un or ceisiadau i Adran Cynllunio CBSC.

Cafodd 18 or ceisiadau ei cymereadwyo, 5 or ceisiadau ei gwrthod a 4 or ceisiadau yn cael ei trafod gan yr Adran Gynllunio ar amser ysgrifennu yr adroddiad.

FFERMYDD GWYNT

Mae y mater yma yn dal yn creu llawer o bryder i drigolion y gymdogaeth a felly cafwyd gryn dipyn o drafodaeth ynglun a'r datblygiadau hyn. Mae adroddiad wedi cael ei baratoi ynglun a

cynllun i adeiladu Fferm Wynt a Parc Solar ar fynydd Llanelian. Byddwn yn cadw llygaid craff ar unrhyw ddatblygiadau pellach.

HYFFORDDIANT

Ni chafwyd unrhyw hyfforddiant, unai fel grwp nac yn unigol yn ystod y flwyddyn hon.

SYLWADAU CYFFREDINOL

Mae angen cynnal a chadw ar faes chwarae y plant yn Betws yn Rhos. Mae'r Cyngor Cymuned yn ceisio ariannu ychwaneg o offer yn y cae. Mae offer wedi cael ei ddewis ac mae aelodau yr Ysgol Feithrin yn cael ei ymgynhori. Mae'r proses yma yn mynd ymlaen.

Mae Cyngor Sir Gonwy wedi gwneud penderfyniad i gau y Toiledau Cyhoeddus yn Llanelian. Mae y Cyngor Cymunedol wedi penderfynnu cymeryd y toiledau drosodd. Mae'r costau wedi cael cynnwys yn ymgais y praesept am 2025/2026

Yr eiddoch yn gywir

Mel Jones
Clerc
Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanelian yn Rhos
07833 548435
clerc@betwsallanelian.org.uk